



Mae gennym lawer o wahanol ffyrdd y gallwn gyfathrebu â chi.

Os oes angen braille, Iaith Arwyddion Prydain, dolen glyw, cyfieithiadau, print bras, sain neu rywbeth arall, cysylltwch â ni.

Ein manylion cyswllt yw:

- Ffôn: **0800 121 4600**
- Ffôn testun: **0800 121 4523**
- Relay UK: **18001 wedyn 0800 121 4600.**

Llenwi'r ffurflen hon

Beth sydd angen i chi ei wneud:

- defnyddio'r ffurflen hon i wneud cais am Lwfans Byw i'r Anabl ar gyfer plentyn o dan 16 oed
- gallwch hefyd gael ffurflen gais wedi ei hanfon atoch trwy ffonio **0800 121 4600**
- cyn i chi llenwi'r ffurflen gais hon, cymerwch ychydig funudau i ddarllen y llyfryn gwybodaeth sy'n dod â'r ffurflen hon. Mae'n cynnwys gwybodaeth bwysig ac yn helpu i egluro rhai o'r cwestiynau rydym yn eu gofyn i chi a pham rydym yn eu gofyn
- os byddwch yn llenwi'r ffurflen hon drwy ddefnyddio darllynydd PDF ar gyfrifiadur neu liniadur, gallwch gadw'r data rydych yn teipio mewn i'r ffurflen fel nad oes rhaid ei chwblhau mewn un sesiwn. Pan fyddwch wedi gorffen bydd rhaid i chi argraffu'r ffurflen gais a'i hanfon atom. Gallwch hefyd argraffu'r ffurflen a'i chwblhau â llaw
- os llenwch y ffurflen hon gan ddefnyddio pen, defnyddiwch **inc du**
- os ydych yn cael trafferth llenwi'r ffurflen hon, gofynnwch am help. Gallwch ofyn i berthynas, ffrind neu rywun mewn canolfan gynghori i'ch helpu ond **bydd rhaid i chi lofnodi'r ffurflen eich hun, os gallwch**
- a fyddech cystal ag ateb pob cwestiwn mor llawn â phosibl, ac anfon yr holl ddogfennau rydym wedi gofyn amdanynt. Os na fyddwch yn rhoi'r holl wybodaeth y gofynnwn amdani, gallai achosi oedi â'ch cais. I gael rhagor o wybodaeth am ba dystiolaeth y mae angen i chi ei hanfon atom, gwelwch **dudalen 7** o'r llyfryn gwybodaeth.

Rheolau Arbennig

Mae gennym reolau arbennig ar gyfer plant sy'n nesau at ddiwedd oes ac ni ddisgwylir iddynt fyw yn fwy na 12 mis arall.

I gael gwybod mwy am Reolau Arbennig, darllenwch **dudalen 5** y llyfryn gwybodaeth.

01 A ydych yn gwneud cais am blentyn o dan y rheolau arbennig?

Na **Ewch i gwestiwn 2**

Ydw Nid oes rhaid i chi ateb y cwestiynau gofal sydd rhwng **cwestiynau 54 i 72.**



Er mwyn ein helpu i ymdrin â'r cais cyn gynted â phosibl, mae'n bwysig eich bod yn anfon ffurflen SR1 am gyflwr meddygol y plentyn atom. Gallwch gael y ffurflen gan feddyg neu arbenigwr y plentyn. Ni fydd rhaid i chi dalu amdano. Gall derbynnydd y meddyg, nyrs neu weithiwr cymdeithasol ei drefnu ar eich cyfer.

Os nad ydych wedi cael ffurflen SR1 erbyn i chi lenwi'r ffurflen gais, anfonwch y ffurflen gais beth bynnag. Os arhoswch efallai y bydd taliadau'r plentyn yn cael eu gohirio. Anfonwch yr ffurflen SR1 cyn gynted ag y gallwch neu ofyn i'ch meddyg neu arbenigwr ei anfon atom ar eich rhan.

Y plentyn

Defnyddiwch LYTHRENNAU BRAS wrth gwblhau enwau'r plentyn.

02 Eu cyfenw neu enw teuluol

03 Pob un o'u henwau eraill yn llawn

04 Unrhyw enwau eraill

05 Eu rhif Yswiriant Gwladol

Mae hwn yr un peth â'u rhif Cyfeirnod Plentyn. Gweler tudalen 8 o'r nodiadau.

06 Eu dyddiad geni

DD/MM/BBBB

07 Eu rhyw

Gwryw

Benyw

08 Eu cyfeiriad cartref

Ble mae'r plentyn fel arfer yn byw

Cod post

09 Eu cenedligrwydd

Er enghraifft, Prydeinig, Sbaenaidd, Twrcaidd.

10 Os yw'r plentyn yn Ardal Economaidd y Swistir neu Ewropeaidd (AEE) wladolyn yr, a oeddent yn byw yn y Deyrnas Unedig (DU) cyn 1 Ionawr 2021?

Y DU yw Lloegr, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon

Na

Ydy

Ddim yn gwybod

11 A yw'r plentyn fel arfer yn byw yng Nghymru neu Loegr?

Na Byddwn yn cysylltu â chi am hyn.

Ydy

12 A yw'r plentyn wedi symud o'r Alban i fyw yng Nghymru neu Loegr ers 1 Gorffennaf 2021?

Na Ewch i gwestiwn 15

Ydy

13 Pa ddyddiad gwnaeth y plentyn symud i fyw yng Nghymru neu Loegr?

DD/MM/BBBB

14 A yw'r plentyn yn cael neu a ydynt wedi gwneud cais am Daliad Anabledd Plant?

Na

Ydy

15 A yw'r plentyn wedi symud o wlad arall yn ystod y 3 blynedd diwethaf i fyw ym Mhrydain Fawr?

Prydain Fawr yw Cymru, Lloegr, a'r Alban

Na Ewch i gwestiwn 17

Ydy

16 Pa ddyddiad gwnaethant gyrraedd ym Mhrydain Fawr?

DD/MM/BBBB

17 Rhowch rif pasbort y plentyn, os rydych yn ei wybod

Mynd dramor

18 A yw'r plentyn wedi bod dramor yn ystod y 3 blynedd diwethaf?

Mae dramor yn golygu treulio amser dramor y tu allan i Brydain Fawr. Prydain Fawr yw Cymru, Lloegr, a'r Alban. Er enghraifft, teithio'n aml am wyliau neu i ymweld â theulu a ffrindiau dramor.

Na **Ewch i gwestiwn 19**

Ydy

Dywedwch wrthym am bob amser y mae'r plentyn wedi bod dramor yn ystod y 3 blynedd diwethaf. Os na wnewch, bydd yn gohirio'ch cais.

Dyddiad gwnaethant adael Prydain Fawr DD/MM/BBBB	Dyddiad gwnaethant gyrraedd yn ôl ym Mhrydain Fawr DD/MM/BBBB	Ble aethant?	Pam aethant?

Os nad oes digon o le, dywedwch wrthym yng **ngwestiwn 89** 'Mwy o wybodaeth'. Os oes angen i chi ddefnyddio tudalen o bapur ar wahân, ysgrifennwch enw llawn a rhif Yswiriant Gwladol y plentyn ar bob tudalen o bapur a llofnodwch a dyddio pob dalen a ddefnyddiwch.

Budd-daliadau gwladwriaeth yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir

19 A yw'r rhiant neu warchodwr y plentyn yn cael unrhyw bensiynau neu fudd-daliadau oddi wrth wladwriaeth yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) neu oddi wrth y Swistir?

Na

Ydy

Ddim yn gwybod

Os ydych wedi ateb Ydy neu Ddim yn gwybod, byddwn yn cysylltu â chi am hyn.

20 A yw rhiant neu warchodwr y plentyn yn gweithio mewn neu'n talu yswiriant i wladwriaeth yn yr AEE neu i'r Swistir?

Mae yswiriant yn golygu cyfraniadau gwaith, fel Yswiriant Gwladol yn y DU

Na

Ydy

Ddim yn gwybod

Os ydych wedi ateb Ydy neu Ddim yn gwybod, byddwn yn cysylltu â chi am hyn.

Amser mewn ysbyty, hosbis, ysgol breswyl, neu lety tebyg arall

21 A yw'r plentyn mewn ysbyty ar hyn o bryd?

Na **Ewch i gwestiwn 22**

Ydy

Rhowch y dyddiad aethant i mewn
DD/MM/BBBB

Rhowch enw a chyfeiriad llawn yr ysbyty.

Cod post

Rhif ffôn yr ysbyty.

Pam aethant i mewn?

A yw'r GIG yn talu eu costau aros?

Na

Ydy

22 A yw'r plentyn wedi cael unrhyw arosiadau dros nos mewn hosbis, coleg preswyl, neu lety tebyg yn ystod y 12 mis diwethaf?

Er enghraifft, cartref gofal preswyl, ysgol breswyl, neu lety tebyg

Na **Ewch i gwestiwn 23**

Ydy

Rhowch y dyddiad aethant i mewn a'r dyddiad daethant allan.

DD/MM/BBBB

I mewn

Allan

Rhowch enw a chyfeiriad llawn y llety.

Cod post

Rhif ffôn y llety, os ydych yn ei wybod.

Dywedwch wrthym am unrhyw arosiadau yn ystod y 12 mis diwethaf yng **ngwestiwn 89**.

A wnaeth unrhyw un o'r canlynol dalu unrhyw rai o'r costau tuag at fyw yno?

Awdurdod lleol

Awdurdod iechyd

Adran o'r llywodraeth

Enw'r awdurdod neu'r adran

GIG

Dim un o'r rhain

Gweithwyr iechyd proffesiynol neu gymorth arbenigol y plentyn

I'n helpu i ddeall sut mae cyflwr iechyd neu anableddau'r plentyn yn effeithio ar eu bywyd o ddydd i ddydd, efallai y byddwn yn cysylltu â gweithwyr iechyd proffesiynol y plentyn am ragor o wybodaeth am eu hanawsterau.

Er enghraifft, meddyg ysbyty, ymgynghorydd, nyrs, therapydd galwedigaethol, ffisiotherapydd, seicolegydd addysg, gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr cymorth. Bydd hyn yn ein helpu i wneud penderfyniad ar eich cais yn gyflymach.

23 A yw'r plentyn wedi cael neu a yw ar fin cael unrhyw asesiadau gan weithiwr iechyd proffesiynol neu arbenigwr i helpu i wneud diagnosis, rheoli, neu fonitro eu cyflwr iechyd neu anableddau?

Mae 'asesiadau gweithwyr iechyd proffesiynol' yn golygu: awdiogram, sgan MRI, therapi lleferydd, datblygiad gwybyddol neu brawf IQ neu rywbeth arall

Na **Ewch i gwestiwn 24**

Ydy

Dywedwch wrthym os yw'r plentyn yn aros am apwyntiad asesu.

Dyddiad a math o brawf	Beth gwnaeth y prawf ei ddangos?	A ydynt yn aros am ganlyniadau
Enghraifft Mehfin 2016 prawf golwg.	Mae angen iddynt weld meddyg ysbyty	<input type="checkbox"/> Na <input type="checkbox"/> Ydy
		Na Ydy
		Na Ydy
		Na Ydy
		Na Ydy

24 A oes gennych unrhyw lythyrau neu adroddiadau asesu am gyflyrau iechyd neu anableddau'r plentyn?

Gall y rhain fod gan weithwyr iechyd proffesiynol neu arbenigwyr sy'n helpu'r plentyn i reoli eu cyflwr iechyd neu eu hanableddau. Er enghraifft, meddygon, ymwelwyr iechyd neu therapyddion galwedigaethol a chynghorwyr neu weithwyr cymorth.

Na **Ewch i gwestiwn 25**

Oes

Dywedwch wrthym pa adroddiadau sydd gennych. Er enghraifft, adroddiad seicolegydd addysg neu Dystysgrif Nam ar y Golwg (CVI). Peidiwch â chynnwys pethau fel llythyrau apwyntiad neu wybodaeth gyffredinol am gyflwr y plentyn fel taflenni ffeithiau neu wybodaeth oddi ar y rhyngwyd.

Mae'n bwysig eich bod yn anfon y wybodaeth hon atom gan y bydd yn ein helpu i wneud penderfyniad ar eich cais yn gyflymach. Peidiwch ag anfon copïau gwreiddiol gan na allwn eu dychwelyd.

25 A oes gan y plentyn unrhyw weithwyr iechyd proffesiynol, nad ydynt yn Feddyg Teulu, sy'n eu cefnogi â'u cyflwr iechyd neu eu hanableddau?

Na **Ewch i gwestiwn 26**

Oes

Enw'r gweithiwr iechyd proffesiynol yn llawn

Eu perthynas â'r plentyn?

Er enghraifft, niwrolegydd neu ffisiotherapydd

Eu cyfeiriad, yn llawn

Cod post

Rhif ffôn y gallwn gysylltu â hwy arno, os ydych yn ei wybod

Rhif cofnod ysbyty'r plentyn. Gallwch ddod o hyd i hwn ar eu cerdyn apwyntiad neu lythyr

Am ba gyflwr neu anabledd y gwelsant y plentyn?

Ar ba ddyddiad y daeth y plentyn i gysylltiad ddiwethaf â hwy am eu cyflwr iechyd neu eu hanableddau?

DD/MM/BBBB

Os oes gan y plentyn unrhyw weithwyr iechyd proffesiynol eraill, nad ydynt yn Feddyg Teulu, dywedwch wrthym yng **nghwestiwn 89** 'Mwy o wybodaeth'

Meddyg teulu'r plentyn

26 Enw meddyg teulu'r plentyn

Os nad ydych yn gwybod enw'r meddyg teulu, rhowch enw'r feddygfa neu'r ganolfan iechyd i ni

27 Cyfeiriad y feddygfa yn llawn

Cod post

28 Rhif ffôn y feddygfa, os ydych yn ei wybod

29 Dywedwch wrthym ar ba ddyddiad y cafodd y plentyn gysylltiad diwethaf â'u Meddyg Teulu am eu cyflwr iechyd neu eu hanableddau

DD/MM/BBBB

Anghenion meithrin, ysgol ac addysgol neu arbenigol y plentyn

30 Enw'r ysgol neu feithrinfa y mae'r plentyn yn mynd iddi

31 Cyfeiriad yn llawn

Cod post

32 Rhowch enw rhywun y gallwn gysylltu â hwy yn yr ysgol os oes angen rhagor o wybodaeth arnom

Er enghraifft, athro neu weithiwr cymorth sy'n adnabod y plentyn yn dda

33 Rhif ffôn y gallwn gysylltu â hwy arno, os ydych yn ei wybod

34 Eu cyfeiriad e-bost, os ydych yn ei wybod

35 Ai ysgol brif ffrwd yw hon?

Na

Ydy **Ewch i gwestiwn 37**

36 Ai ysgol arbenigol yw hon?

Er enghraifft, ysgol arbenigol sy'n rhoi cymorth i blant ag anawsterau dysgu neu anabledau

Na

Ydy

Pa fath o ysgol yw hi?

Os oes angen cymorth ar y plentyn o dan Gweithredu Ysgol neu Weithredu Ysgol a Mwy, bydd yr athro yn darparu adroddiad i'r awdurdod lleol am anawsterau'r plentyn. Os cytunir ar ragor o gymorth, bydd yr awdurdod lleol yn cwblhau asesiad ac yn darparu adroddiad neu gynllun â datganiad.

37 A oes gan y plentyn unrhyw rai o'r adroddiadau, cynlluniau neu ddatganiadau canlynol?

Ticiwch bob blwch sy'n berthnasol

Cynllun Gofal Iechyd Addysgol (EHCP)

Cynllun Addysg Unigol (IEP)

Cynllun Ymddygiad Unigol (IBP)

Llythyr, nodyn yn lle datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig gan yr awdurdod lleol

Cynllun Cymorth Cydlynol (CSP)

Rwy'n aros i glywed am un o'r uchod

Nid oes gan y plentyn unrhyw un o'r adroddiadau, y cynlluniau na'r datganiadau uchod

Os oes gennych unrhyw un o'r adroddiadau neu ddatganiadau uchod, anfonwch gopi atom. Gall ein helpu i wneud penderfyniad ar eich cais yn gyflymach. Peidiwch ag **anfon y rhai gwreiddiol** gan na allwn eu dychwelyd.

Mwy o wybodaeth gan rywun sy'n adnabod y plentyn

38 A oes unrhyw un arall sy'n adnabod y plentyn ac yn gallu dweud wrthym am eu hanawsterau?

Yn ogystal â lenwi'r ffurflen hon, efallai bydd yn ein helpu i ddeall anawsterau y plentyn drwy ddarparu gwybodaeth ychwanegol gan rywun sy'n adnabod y plentyn. Dylai hyn ddweud wrthym:

- sut mae cyflyrau iechyd neu anabledau'r plentyn yn effeithio ar eu bywyd bob dydd a symud o gwmpas, neu
- gwybodaeth am unrhyw gymorth y gallant ei ddarparu i'r plentyn.

Gall hwn gael ei lenwi gan rywun sy'n eich cefnogi neu sy'n helpu i ofalu am y plentyn. Er enghraifft, gweithiwr iechyd proffesiynol, gweithiwr cymdeithasol, athro neu ofalwr.

Na **Ewch i gwestiwn 39**

Oes **Gofynnwch iddynt lenwi eu datganiad ac yna bydd rhaid iddynt lenwi'r datganiad ar dudalen 11.**

Mae'r datganiad hwn yn ymwneud â:

Eu dyddiad geni DD/MM/BBBB

Os nad oes digon o le, defnyddiwch y blwch 'Mwy o wybodaeth' yng **nghwestiwn 89**. Os oes angen i chi ddefnyddio tudalen o bapur ar wahân, ysgrifennwch enw llawn a rhif Yswiriant Gwladol (YG) y plentyn ar bob tudalen o bapur a'i lofnodi a dyddio bob dalen a ddefnyddiwch.

Mae rhaid i'r person sy'n adnabod y plentyn ac sydd wedi llenwi'r blwch datganiad ar dudalen 10 lofnodi i ddatgan bod y wybodaeth y maent wedi ei rhoi i ni am y plentyn yn wir.

Llofnod

Enw

Defnyddiwch lythrennau bras.

Dyddiad

DD/MM/BBBB

Swydd neu broffesiwn

Rhif ffôn

Dylech gynnwys y cod deialu.

Cyfeiriad llawn

Cod post

Perthynas â'r plentyn

Os yw'n berthnasol.

Pryd gwnaethoch weld y plentyn ddiwethaf?

DD/MM/BBBB

39 Rhannu gwybodaeth am gyflwr iechyd y plentyn

Mae'n bosibl y bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) neu weithwyr gofal iechyd proffesiynol cymeradwy sy'n gweithio i DWP angen rhagor o wybodaeth am gyflwr iechyd y plentyn a sut mae'n effeithio arnynt.

Efallai y byddant yn gofyn am wybodaeth berthnasol gan feddyg y plentyn, neu unrhyw weithiwr proffesiynol perthnasol arall y byddwch yn dweud wrthynt amdanynt.

A ydych yn rhoi caniatâd i feddyg y plentyn neu weithwyr proffesiynol perthnasol eraill roi rhagor o wybodaeth i DWP am eu cyflwr iechyd?

Ydw – gellir rhannu gwybodaeth am iechyd y plentyn â DWP neu'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n gweithio iddynt.

Na – ni ellir rhannu gwybodaeth am iechyd y plentyn â DWP na'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n gweithio iddynt.

Sut mae DWP yn defnyddio'r wybodaeth hon

Mae DWP yn defnyddio'r wybodaeth hon i:

- prosesu eich cais
- gwneud penderfyniad ar eich cais, neu unrhyw ailystyriaeth orfodol neu apêl a wnewch.

Mae'r gyfraith yn caniatáu i DWP gael, cadw, a defnyddio'r wybodaeth hon.

Mae angen eich caniatâd ar feddyg y plentyn (neu weithwyr proffesiynol perthnasol eraill rydych yn dweud wrth DWP amdanynt) i roi gwybodaeth i DWP. Os byddwch yn rhoi eich caniatâd, mae hyn yn rhoi gwybod iddynt fod ganddynt yr hawl gyfreithiol i rannu'r wybodaeth hon â DWP.

Gall DWP ofyn yn gyfreithlon i feddyg y plentyn, ymgynghorydd ysbyty neu weithwyr proffesiynol perthnasol eraill am wybodaeth am eu cyflwr iechyd a sut mae'n effeithio arnynt.

Mae hyn oherwydd ein bod yn gofyn am y wybodaeth i'n helpu i gyflawni ein swyddogaethau nawdd cymdeithasol swyddogol.

Nid oes rhaid i chi roi eich caniatâd. Os na wnewch hynny, bydd DWP yn gwneud penderfyniad yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ganddynt eisoes, yn ogystal ag unrhyw un y byddwch yn ei rhoi i DWP eich hun.

Os byddwch yn newid eich meddwl

Gallwch newid eich meddwl.

Gallwch wneud hyn drwy gysylltu â

0800 121 4600 a dweud eich bod am roi neu dynnu eich caniatâd yn ôl.

Os byddwch yn tynnu eich caniatâd yn ôl, ni all DWP gael gwybodaeth gan feddyg y plentyn nac eraill a enwir ar y ffurflen.

Rwyf wedi darllen a deall sut mae DWP yn defnyddio gwybodaeth.

Llofnod

Dyddiad

DD/MM/BBBB

Cyflwr iechyd neu anableddau'r plentyn

40 Dywedwch wrthym am gyflwr iechyd neu anableddau'r plentyn:

- gall cyflwr iechyd neu anabledd fod yn anhawster corfforol, golwg, clyw, lleferydd, dysgu neu ddatblygiadol neu anhawster iechyd meddwl. Os nad oes ganddynt ddiagnosis, dywedwch wrthym o hyd am eu hanawsterau. Er enghraifft, os ydynt yn cael anhawster i ddysgu pethau newydd ac nad ydych yn gwybod pam, rhwch 'anhawster dysgu'.
- pan fyddwn yn gofyn 'pa mor hir' rydym yn ei olygu pryd y dechreuodd yr anawsterau. Dywedwch wrthym pryd y dechreuodd y cyflwr iechyd neu'r anableddau effeithio ar eu bywyd o ddydd i ddydd, nid dyddiad y diagnosis
- gall triniaeth fod yn feddyginiaethau fel tabledi, hufenau neu bigiadau a therapiâu fel lleferydd, galwedigaethol neu chwarae, ffisiotherapi neu gwnsela
- pa mor aml y maent yn cael pob triniaeth ac am ba hyd. Mae gan y label ar feddyginiaeth y plentyn yr enw, y dos a pha mor aml i'w gymryd.

Os oes gennych restr bresgripsiwn gyfoes sbâr anfonwch hi atom â'r ffurflen gais hon.

Cyflwr iechyd neu anabledd	Pa mor hir y maent wedi ei gael?	Pa driniaeth a gânt ar ei gyfer?	Pa mor aml cânt driniaeth?
Enghraifft 1 ADHD.	Dechreuodd problemau yn 4 oed.	Therapi ymddygiad gwybyddol. Ritalin 30 Miligram (mg).	Sesiwn un awr yr wythnos. Un dabled y dydd.
Enghraifft 2 Ecsema.	Tua blwyddyn	Promethazine 5mg. 1% eli hydrocortisone. E45 Olew bath esmwyth.	Un cyn gwely. 3 gwaith y dydd. Dyddiol.
Enghraifft 3 Nam ar y golwg.	O enedigaeth.	Therapi chwarae.	Bob dydd.

Os oes angen mwy o le arnoch i ddweud wrthym am eu cyflwr iechyd neu eu hanableddau, dywedwch wrthym yng **nghwestiwn 89** 'Mwy o wybodaeth'.

41 A yw'r plentyn yn defnyddio, neu a yw wedi eu rhagnodi neu wedi cael asesiad iechyd galwedigaethol am unrhyw gymhorthion neu addasiadau?

Cymhorthion fel rheiliau llaw, stolion clwydo, ffyn cerdded neu gadeiriau olwyn.

Na **Ewch i gwestiwn 42**

Ydy

Dywedwch wrthym am:

- cymhorthion a ddefnyddir gartref, yn yr ysgol neu unrhyw le arall
- cymhorthion neu addasiadau yr asesydd amdanynt neu y maent yn aros amdanynt
- pa gymorth sydd ei angen arnynt i'w ddefnyddio. Gallai hyn fod yn oruchwyliaeth, anogaeth neu gymorth.

Gwelwch **dudalen 8** o'r llyfryn gwybodaeth.

Cymhorthion ac addasiadau	Pa gymorth sydd ei angen arnynt i ddefnyddio'r gymorth neu'r addasiad	A ragnodwyd y gymorth neu'r addasiad hwn gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol? Er enghraifft, therapydd galwedigaethol neu asesiad.
Enghraifft o gymorth: Cardiau Cyfnewid Lluniau	Anogaeth i ddefnyddio cardiau i gyfathrebu	<input type="checkbox"/> Na <input type="checkbox"/> Do
Enghraifft o addasu: Rheiliau llaw	Dim angen help	<input type="checkbox"/> Na <input type="checkbox"/> Do
		Na Do
		Na Do
		Na Do
		Na Do
		Na Do
		Na Do

Os oes angen mwy o le arnoch i ddweud wrthym am eu cymhorthion neu eu haddasiad, parhewch yng **ngwestiwn 89** 'Mwy o wybodaeth'.

42 Pan fydd angen help ar y plentyn

Rydym yn deall y gall yr help sydd ei angen ar blentyn amrywio o ddydd i ddydd neu o wythnos i wythnos.

Er mwyn gwneud y penderfyniad cywir, mae angen i ni wybod a yw'r help sydd ei angen ar y plentyn yr un peth bron bob dydd neu os yw'r cymorth sydd eu hangen arnynt yn newid o ddydd i ddydd.

A yw anghenion y plentyn yn aros yr un peth ar y rhan fwyaf o'r dyddiau neu a yw'n newid o ddydd i ddydd?

y rhan fwyaf o ddyddiau

yn newid o ddydd i ddydd

Dywedwch wrthym sut mae eu hanghenion yn newid o ddydd i ddydd.

Er enghraifft:

- bob 3 i 4 wythnos maent yn cael cwpl o ddiwrnodau da
- bod angen mwy o ofal arnynt pan fydd eu cyflwr iechyd neu eu hanabledau yn gwaethygu, 2 neu 3 gwaith y flwyddyn, neu
- eu bod yn cael triniaeth 3 gwaith yr wythnos sy'n effeithio ar eu cyflwr iechyd neu anabledau a bod angen mwy o gymorth neu oruchwyliaeth arnynt y diwrnod wedyn.

Anghenion symudedd y plentyn

Dim ond i blentyn dros 3 oed y gellir dyfarnu symudedd. Os yw'ch plentyn o dan 3 oed, ewch i **gwestiwn 54**.

Mae angen i ni wybod am unrhyw anawsterau sydd gan y plentyn wrth sefyll a symud o gwmpas. Gallai hyn fod oherwydd cyflwr neu anabledd gwybyddol, dysgu neu iechyd corfforol.

Nid ydym yn talu Lwfans Byw i'r Anabl ar gyfer plentyn sydd â chyflwr iechyd neu anabledd penodol, ond am yr effaith y mae'n eu cael arnynt.

Wrth wneud penderfyniadau ar hawl i Lwfans Byw i'r Anabl, rydym yn edrych ar allu'r plentyn i sefyll a symud ar arwyneb gweddol wastad.

43 A yw'r plentyn yn gallu cerdded yn gorfforol?

Na **Ewch i gwestiwn 51**

Ydy

44 A yw'r plentyn yn cael unrhyw anawsterau wrth sefyll a symud o gwmpas oherwydd cyflwr iechyd neu anabledd?

Er enghraifft:

- anhawster o ran pa mor bell y gallant gerdded
- faint o amser mae'n ei gymryd iddynt
- eu cyflymder cerdded: araf iawn, araf, normal
- y ffordd y maent yn cerdded. Fel: limp, cerddediad wedi ei newid
- gwrthod cerdded neu arddangos ymddygiad sy'n peryglu niwed iddynt eu hun neu i eraill.

Na **Ewch i gwestiwn 49**

Ydy

45 Pa mor bell y gallant gerdded heb anghysur difrifol a pha mor hir y mae'n eu cymryd iddynt?

Mae hyn yn golygu cyfanswm y pellter y gallant ei gerdded cyn bod angen iddynt stopio a gorffwys neu na allant symud ymhellach oherwydd y byddai'n achosi anghysur neu drallod difrifol. Gall hyn gynnwys:

- seibiannau byr a seibiant i ddal eu gwynt neu leihau eu poen, neu
- methu symud ymhellach gan y bydd yn achosi trallod ymddygiadol.

Gwelwch **dudalen 9 y llyfryn gywbodaeth**.

Pa mor bell y gallant gerdded?

dros 200 metr (218 llath)

51 i 200 metr (56 i 218 llath)

50 metr (55 llath neu'n llai)

ychydig o gamau

Pa mor hir mae'n ei gymryd iddynt?

mwy na 5 munud

3 i 4 munud

1 i 2 funud

llai na munud

46 Dywedwch wrthym am eu cyflymder cerdded

Ticiwch y blwch sy'n disgrifio orau y ffordd y maent yn cerdded

Normal – gallant gerdded ar yr un cyflymder â phlant tebyg eraill nad oes ganddynt gyflwr iechyd neu anabledd.

Araf – byddai'n cymryd dwywaith yr amser iddynt gerdded yr un pellter â phlant tebyg eraill nad oes ganddynt gyflwr iechyd neu anabledd.

Araf iawn – ni allant gadw i fyny â phlant tebyg eraill nad oes ganddynt gyflwr iechyd neu anabledd.

47 Dywedwch wrthym am y ffordd y maent yn cerdded

Ticiwch y blwch sy'n disgrifio orau y ffordd y maent yn cerdded.

Maent yn cerdded yn normal

Maent yn cerdded â limp

Maent yn siffrwd

Maent yn llusgo eu coes

Maent yn cerdded ag un goes neu'r ddwy droed wedi eu troi i mewn

Maent yn cerdded ar flaenau eu traed

Mae ganddynt gydbwysedd gwael

Maent yn cael adegau pan na allant gerdded

Maent yn gwrthod cerdded neu'n arddangos ymddygiadau trallodus sy'n effeithio ar eu gallu i gerdded

Rhywbeth arall

Dywedwch wrthym am hyn

48 A oes gan y plentyn unrhyw anawsterau eraill naill ai yn ystod neu ar ôl sefyll a symud o gwmpas sy'n effeithio ar ei iechyd?

Er enghraifft, pendro, gorbryder, diffyg anadl, blinder neu boen. Er enghraifft, gall cerdded achosi gwaedu i gymalau'r ffêr.

Na **Ewch i gwestiwn 49**

Oes

Dywedwch wrthym am hyn

49 A oes angen arweiniad neu oruchwyliaeth arnynt y rhan fwyaf o'r amser pan fyddant yn cerdded yn yr awyr agored?

Gwelwch **dudalen 10** y llyfryn gwybodaeth

Na **Ewch i gwestiwn 50**

Oes

A ydynt yn gallu dod o hyd i'w ffordd o gwmpas lleoedd maent yn eu hadnabod?

Na

Ydynt

A ydynt yn gallu gofyn am gyfarwyddiadau a'u dilyn?

Na

Ydynt

A ydynt yn gallu cerdded yn ddiogel wrth ymyl ffordd brysur?

Na

Ydynt

A ydynt yn gallu croesi ffordd yn ddiogel?

Na

Ydynt

A ydynt yn gallu deall peryglon cyffredin yn yr awyr agored?

Na

Ydynt

A ydynt yn mynd yn bryderus, yn ymddwyn mewn trallod, yn dangos dryswch ac yn mynd yn ddryslud yn rheolaidd?

Na

Ydynt

A ydynt yn dangos ymddygiad anrhagweladwy yn rheolaidd?

Na

Ydynt

A oes angen ataliaeth gorfforol arnynt yn rheolaidd?

Na

Ydynt

50 A ydynt yn cwmpo oherwydd eu cyflwr iechyd neu eu hanabledd?

Na **Ewch i gwestiwn 51**

Ydynt

Dywedwch wrthym nifer y cwmpau bob mis

Pan fyddant yn cwmpo, a ydynt yn gallu codi heb help na chymorth?

Na

Ydynt

A ydynt wedi cael anafiadau oherwydd y cwmpau sydd angen triniaeth ysbyty?

Na

Ydynt

51 Pryd gwnaeth anghenion symudedd y plentyn ddechrau?

Fel arfer, dim ond os yw wedi bod angen cymorth am fwy na 3 mis y gall y plentyn gael y rhan symudedd o DLA.

Dywedwch wrthym ar ba ddyddiad y dechreuodd eu hanghenion symudedd.

Os na allwch gofio'r union ddyddiad, dywedwch wrthym yn fras pryd oedd hwn.

DD/MM/BBBB

Y Cynllun Motability

Mae'r Cynllun Motability yn caniatáu i bobl anabl brydlesu car, sgwter neu gadair olwyn bweredig yn gyfnewid am eu holl daliadau symudedd neu rai ohonynt. Gall rhieni a gofalwyr ymuno â'r cynllun ar ran plentyn 3 oed a hŷn.

52 Os yw'r plentyn yn gymwys i gael cymorth gan Motability, a hoffech i ni anfon gwybodaeth atoch am yr help y gallant eu cynnig?

Ni fyddwn yn rhannu unrhyw fanylion personol â Motability

Na

Hoffwn

Os penderfynwch nad ydych am dderbyn gwybodaeth am Motability yn y dyfodol, cysylltwch â ni ar **0800 121 4600** i roi gwybod i ni.

Mwy o wybodaeth am eu hanghenion symudedd

53 Dywedwch unrhyw beth arall y mae angen i ni ei wybod am eu hanawsterau wrth sefyll a symud o gwmpas neu sut mae eu hanghenion yn newid o ddydd i ddydd.

Os oes angen mwy o le arnoch, parhewch yng **nghwestiwn 89** 'Mwy o wybodaeth'.

Anghenion gofal y plentyn

Os ydych yn gwneud cais o dan reolau arbennig, ar gyfer plentyn sy'n nesau at ddiwedd oes, ewch i **gwestiwn 73**.

Mae angen i ni wybod am unrhyw anawsterau sydd gan y plentyn â'u hanghenion gofal bywyd bob dydd oherwydd cyflwr neu anabledd gwybyddol, dysgu neu gorfforol.

Wrth wneud penderfyniadau ar hawl i Lwfans Byw i'r Anabl, rydym yn edrych ar allu'r plentyn i reoli eu hanghenion a'u gweithgareddau gofal o ddydd i ddydd. Nid ydym yn talu Lwfans Byw i'r Anabl ar gyfer plentyn sydd â chyflwr iechyd neu anabledd penodol, ond am yr effaith y mae'n ei gael ar eu bywyd bob dydd.

Help sydd ei angen yn ystod y dydd

Yn ystod y dydd yw unrhyw amser cyn i rieni neu ofalwr y plentyn fynd i'r gwely. Er enghraifft:

- mae'r plentyn yn deffro am 7am ac yn mynd i'r gwely am 8pm
- mae rhieni'r plentyn yn codi am 7am ac yn mynd i'r gwely am 11pm
- yn ystod y dydd fyddai 7am tan 11pm. Byddai unrhyw help sydd ei angen ar ôl 11pm yn cyfrif fel help yn ystod y nos.

54 A oes angen annog, ysgogi, neu gymorth ar y plentyn i setlo yn y gwely yn ystod y dydd?

Fel:

- deffro
- codi eu coesau i mewn neu allan o'r gwely
- eistedd i fyny rhag gorwedd, neu
- setlo yn y gwely yn barod i fynd i gysgu.

Gwelwch **dudalen 11** y **llyfryn gwybodaeth**.

Na **Ewch i gwestiwn 55**

Oes

Dywedwch wrthym pa mor aml y mae angen cymorth arnynt bob dydd a pha mor hir y mae'n ei gymryd bob tro. Os nad oes angen cymorth arnynt ar gyfer gweithgaredd penodol, ysgrifennwch '0'.

Pa mor aml bob dydd y mae angen annog, ysgogi, neu gymorth arnynt i'w helpu i godi o'r gwely?

Sawl munud mae hyn yn eu cymryd bob tro?

Pa mor aml bob dydd y mae angen annog, ysgogi, neu gymorth arnynt i fynd i'r gwely?

Sawl munud mae hyn yn eu cymryd bob tro?

Pa mor aml bob dydd y mae angen annog, ysgogi, neu gymorth arnynt i helpu i setlo yn y gwely?

Sawl munud mae hyn yn eu cymryd bob tro?

Os oes angen i chi roi rhagor o wybodaeth i ni am eu hanghenion bywyd bob dydd neu ofal, dywedwch wrthym yng **ngwestiwn 72**.

55 A oes angen anogaeth, ysgogaeth neu gymorth arnynt i reoli eu hanghenion toiled?

Mae hyn yn golygu:

- gallu mynd ar neu oddi ar doiled safonol a
- gwagio eu coluddyn neu bledren, gan gynnwys os ydynt yn defnyddio dyfais gasglu fel bwced, potel neu gathetr
- glanhau eu hunain ar ôl defnyddio'r toiled.

Gwelwch **dudalen 12** y llyfryn gwybodaeth.

Na **Ewch i gwestiwn 56**

Oes Ticiwch y blychau sy'n berthnasol.

Mae angen anogaeth, ysgogaeth, neu gymorth arnynt i:

- mynd i'r toiled
- rheoli dillad
- mynd ar ac oddi ar y toiled
- sychu a glanhau eu hunain
- golchi a sychu eu dwylo
- rheoli cathetr, ostomi neu stoma
- rheoli cewynnau neu badiau

Os oes angen i chi roi rhagor o wybodaeth i ni am eu hanghenion gofal neu sut mae eu hanghenion yn newid o ddydd i ddydd, dywedwch wrthym yng **nghwestiwn 72**.

Er enghraifft, mae ganddynt boen neu maent yn mynd yn ofidus.

56 A oes angen anogaeth, ysgogaeth, neu gymorth arnynt i'w helpu i symud o gwmpas tu allan, defnyddio'r grisiau neu fynd i mewn neu allan o gadair yn ystod y dydd?

Mae cadair yn unrhyw fath o gadair gan gynnwys cadair olwyn.

Mae hyn yn golygu:

- symud o un lle i'r llall
- defnyddio grisiau
- mynd i mewn, eistedd i mewn, a chodi o gadair.

Mae tu fewn yn eu cartref, cartref ffrind, ysgol, coleg, neu unrhyw le arall y tu mewn.

Gwelwch **dudalen 13** y llyfryn gwybodaeth.

Na **Ewch i gwestiwn 57**

Oes Ticiwch y blychau sy'n berthnasol.

Mae angen anogaeth, ysgogaeth, neu gymorth arnynt i:

- mynd i fyny ac i lawr un cam
- mynd i fyny'r grisiau
- mynd i lawr y grisiau
- symud o gwmpas yn ddiogel
- mynd i mewn neu allan o gadair

eistedd mewn cadair

Os oes angen i chi ddweud mwy wrthym am eu hanghenion gofal neu sut mae eu hanghenion yn newid o ddydd i ddydd, dywedwch wrthym yng **nghwestiwn 72**.

Er enghraifft, maent yn taro i mewn i ddodrefn a drysau.

57 **A oes angen anogaeth, ysgogaeth, neu gymorth arnynt i ymolchi, cael bath, cawod a glanhau eu hunain yn ystod y dydd?**

Mae hyn yn golygu:

- mynd i mewn ac allan o faddon neu gawod
- golchi eu gwallt
- sychu eu hunain
- defnyddio sebon
